| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Pwyllgor Cynllunio |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 12 Gorffennaf 2017 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | Hugh Evans |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Karsten Bruβk [Swyddog Cynllunio] |
| **Teitl:** | **Cadarnhad - Gorchymyn Diogelu Coed Cyngor Sir Ddinbych Rhif 01/2017 yn ymwneud â Thir gerllaw Glasfryn, Gellifor yn Sir Ddinbych** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn sôn am Orchymyn Diogelu Coed Cyngor Sir Ddinbych Rhif 01/2017 sy'n ymwneud â thir gerllaw Glasfryn yng Ngellifor (Atodiad I).

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Defnyddiodd y Cyngor bwerau a nodir yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, adran 201 (Gorchmynion Diogelu Coed dros dro) ar 24 Mawrth 2017. Mae angen penderfyniad ar fwriad y Cyngor i gadarnhau'r Gorchymyn Diogelu Coed uchod cyn iddo ddod i ben ym mis Medi 2017.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod Aelodau'n cadarnhau Gorchymyn Diogelu Coed Cyngor Sir Ddinbych Rhif 01/2017 sy'n ymwneud â Thir gerllaw Glasfryn, Gellifor yn Sir Ddinbych (ynghlwm fel Atodiad I).

## 4. Manylion am yr adroddiad

4.1 Yn gyffredinol nod Gorchmynion Diogelu Coed yw diogelu coed unigol neu grŵp o goed sy'n cyfrannu at nodweddion y dirwedd, yn darparu amwynder er mwynhad i'r cyhoedd, yn darparu cynefin i fywyd gwyllt lleol, neu oherwydd eu prydferthwch cynhenid. Mewn termau cyfreithiol, maent yn ei gwneud yn drosedd torri, difrigo, tocio, diwreiddio, difrodi neu ddifetha coeden yn fwriadol heb ganiatâd yr awdurdod cynllunio lleol.

4.2 Nid oes gan Orchmynion Diogelu Coed unrhyw rym oni bai eu bod yn cael eu cadarnhau gan yr awdurdod cynllunio lleol. Mae Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, adran 201, yn caniatáu gwneud Gorchmynion Diogelu Coed dros dro os yw'r coed dan sylw mewn perygl mawr o gael eu difrodi neu dan fygythiad o gael eu torri'n fuan. Fodd bynnag, mae adran 201 yn amodi mai dim ond am gyfnod o chwe mis y bydd y Gorchymyn Diogelu Coed dros dro hwn mewn grym, gyda'r cyfnod hwnnw'n dechrau ar y dyddiad y gwnaed y gorchymyn neu y cadarnhawyd y Gorchymyn Diogelu Coed gan yr awdurdod cynllunio lleol.

4.3 Defnyddiodd y Cyngor y pwerau sydd yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, adran 201, ar 24 Mawrth 2017. Mae hyn yn golygu y bydd y Gorchymyn Diogelu Coed dros dro sy'n ymwneud â Gorchymyn Diogelu Coed Cyngor Sir Ddinbych (CSDd) rhif 01/2017 yn colli ei rym ar 24 Medi 2017. Os na fydd yr Aelodau'n cadarnhau unrhyw Orchymyn Diogelu Coed cyn i'r cyfnod o chwe mis ddod i ben, ni fydd y goeden yn elwa ar unrhyw amddiffyniad ychwanegol oni bai bod yr awdurdod cynllunio lleol yn gwneud Gorchymyn Diogelu Coed newydd.

4.4 Mae hysbysu a chyhoeddi'n gam sylfaenol yn y drefn o wneud Gorchymyn Diogelu Coed. Yn ôl deddfwriaeth, roedd rhaid i'r Cyngor adael i'r cyhoedd, gan gynnwys perchnogion tir a thrigolion lleol a effeithiwyd, gyflwyno sylwadau a gwrthwynebiadau am gyfnod o 28 diwrnod. Daeth y cyfnod hwn i ben ar 4 Mai 2017.

4.5 Derbyniodd y Cyngor gyfanswm o 2 o sylwadau, a'r ddau o blaid y Gorchymyn Diogelu Coed:

- Sylw 1 (cyflwynwyd dros e-bost): 'Buaswn yn ddiolchgar pe buasech yn gallu cofnodi fy nghefnogaeth i'r Gorchymyn Diogelu Coed parhaol ar y goeden dderw ger Glasfryn yng Ngellifor.' a
- Sylw 2 (cyflwynwyd drwy lythyr): 'Mae popeth wedi cael ei ddweud, felly gwnewch eich gorau i achub yr hen dderwen hyfryd yma sydd wedi bod yn rhan o'r dirwedd ers canrifoedd.'

Gellir gweld y ddau gopi drwy gysylltu â Cynllunio Strategol a Thai yn Ninbych dros y ffôn [01824 706916] neu dros e-bost [ldp@denbighshire.gov.uk].

4.6 Derbyniodd y Cyngor ohebiaeth gychwynnol gan barti â chysylltiad â'r tir, yn cydnabod derbyn y llythyr ac yn ystyried camau pellach. Ond ni chafwyd sylwadau pellach gan y parti hwnnw er iddynt gael rhagor o amser i ymateb. *Diweddariad Gorffennaf 2017: Ar ôl i'r Pwyllgor Cynllunio benderfynu gohirio'r eitem ym Mehefin 2017, i ganiatáu i'r parti â chysylltiad yn y tir gael mwy o amser i gyflwyno sylwadau, derbyniodd y Cyngor ohebiaeth bellach ar 25 Mehefin 2017 yn dweud nad oeddent yn dymuno gwrthwynebu'r Gorchymyn Diogelu Coed.*

4.7 Felly gall y Cyngor gadarnhau'r Gorchymyn Diogelu Coed naill ai heb ei addasu neu'n amodol ar unrhyw addasiadau y mae'n eu hystyried yn fanteisiol.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Flaenoriaethau Corfforaethol?

**5.1** Er nad yw'r penderfyniad yn cyfrannu'n uniongyrchol at unrhyw rai o Flaenoriaethau Corfforaethol y Cyngor, gellir ei gysylltu â 'sicrhau mynediad i dai o ansawdd dda' gan ei fod yn darparu amwynder a gwerth o ran hamdden i drigolion Gellifor.

## 6. Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Nid fydd unrhyw gostau ar gyfer cadarnhau'r Gorchymyn Diogelu Coed. Os caiff ei gadarnhau, bydd y Gorchymyn Diogelu Coed yn amod cynllunio perthnasol a bydd rhaid ceisio caniatâd gan Reolwyr Cynllunio / Datblygu cyn gwneud unrhyw waith.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar y Cyngor nid yn unig i gynnal datblygiadau cynaliadwy, ond hefyd i gymryd camau rhesymol wrth gyflawni ei swyddogaethau i fodloni ei amcanion datblygu cynaliadwy (neu les). Mae’r Ddeddf yn ei gwneud yn orfodol dangos sut mae'r datblygiad yn cydymffurfio â'r Ddeddf mewn perthynas â phob cais y penderfynir arno.

7.2 Drafftiwyd yr adroddiad gan roi ystyriaeth i ddyletswydd y Cyngor a’r “egwyddor datblygu cynaliadwy” a nodir yn Neddf 2015. Mae’r argymhelliad yn ystyried yr angen i sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau’r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Ystyrir felly na fyddai’r argymhelliad arfaethedig yn cael unrhyw effaith sylweddol nac annerbyniol ar gyflawni’r amcanion lles.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

8.1 Ni chynhaliwyd ymgynghoriad gydag Archwilio. Yn ôl deddfwriaeth, roedd rhaid i’r Cyngor adael i aelodau’r cyhoedd, gan gynnwys tirfeddianwyr a thrigolion lleol a effeithiwyd, gyflwyno sylwadau a gwrthwynebiadau am gyfnod o 28 diwrnod.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Ni fydd y Cyngor yn wynebu unrhyw gostau ychwanegol os bydd yn cadarnhau’r Gorchymyn Diogelu Coed sy’n ymwneud â Thir gerllaw Glasfryn, Gellifor, oni bai wrth gwrs bod y penderfyniad yn cael ei herio ar sail camgymeriadau gweithredu gan wrthwynebydd yn yr Uchel Lys. Yn yr un modd, mae rhywfaint o risg o wynebu hawliad am iawndal yn sgil gwrthod unrhyw ganiatâd angenrheidiol dan y Gorchymyn, ond caiff y perygl hwn ei liniaru os bydd y Cyngor yn rheoli’r broses yn dda.

**10. Pa risgiau sy’n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i’w lleihau?**

10.1 Gallai’r Cyngor gael ei herio ar sail camgymeriadau gweithredu yn yr Uchel Lys, yn unol â darpariaeth ddeddfwriaethol.

10.2 Yn yr un modd ag unrhyw Orchymyn Diogelu Coed arall, mae risg bychan o wynebu hawliad am iawndal yn sgil gwrthod unrhyw ganiatâd angenrheidiol dan y Gorchymyn (gweler Gorchymyn Enghreifftiol Gorchymyn Diogelu Coed Erthygl 9).

10.3 Os na fydd yr Aelodau’n gwneud penderfyniad ynglŷn â’r Gorchymyn Diogelu Coed dros dro CSDd rhif 01/2017, bydd yn colli ei rym ar 24 Medi 2017. Bydd hyn yn golygu na fydd y goeden yn cael ei diogelu o gwbl.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

- Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990;
- Rheoliadau Cynllunio Gwlad A Thref (Coed) 1999